O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 779 (Cy. 119)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberteifi, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011

Gwnaed 11 Mawrth 2011

Yn dod i rym 18 Mawrth 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno, a'r tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberteifi, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 18 Mawrth 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yr arwyddion traffig dros dro yn derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o Gefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) yn Aberteifi yn Sir Ceredigion, sy'n ymestyn o bwynt 77 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r U5005, a elwir Heol Caemorgan, hyd at bwynt 1,114 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys, ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno'n weithredol.

5. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Aberteifi, Dyfed) (Dileu Cyfyngiadau) 1990**(3)** drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod y cyfryw adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 mewn grym.

6. Caiff y Gorchymyn hwn barhau am 18 mis fan hwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Mawrth 2011.

G Morgan

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(3) O.S. 1990/2466